Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Swyddog Ymchwil**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | **Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd** |
| **Adran/Pwnc:** | **Meddygaeth** |
| **Cyflog:** | **Gradd 08 £39,105 – £45,163 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn USS** |
| **Oriau gwaith:** | **35 awr yr wythnos** |
| **Nifer y swyddi:** | **1** |
| **Contract:** | **Dyma swydd am gyfnod penodol tan 31 Ionawr 2028** |
| **Lleoliad:** | Lleolir y swydd hon ar Gampws Singleton |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio ar brosiectau amrywiol ym mhortffolio'r Tîm Poblogaeth, Seiciatreg, Hunanladdiad a Gwybodeg (PPSI). Mae'r tîm dan arweiniad yr Athro Ann John, Cyd-gyfarwyddwr DATAMIND (sydd wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau cyllid am 5 mlynedd arall), prif ymchwilydd y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, ac arweinydd y thema Gwyddor Data yng Nghanolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc.<br><br>Y prif ffocws fydd prosiect ymchwil mawr a fydd yn canolbwyntio ar bennu lefel risg ar gyfer anhwylder iselder mawr cynnar. Nod y prosiect yw datblygu a dilysu model pennu lefel risg gan ddefnyddio data gofal iechyd rheolaidd i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl uchel iawn o ddatblygu iselder cynnar, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant i rieni sydd â salwch meddwl.<br><br>**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**<br>1. Cynnal dadansoddiadau o ddata gofal iechyd rheolaidd ar raddfa fawr ym manciau data'r ADP a SAIL i ddatblygu a dilysu modelau pennu lefel risg ar gyfer iselder cynnar.<br>2. Prosesu a dadansoddi data o sawl ffynhonnell ym manciau data'r ADP a SAIL, gan gynnwys cofnodion iechyd, data gofal cymdeithasol a data addysgol<br>3. Cyfrannu at ddatblygu methodolegau ystadegol ar gyfer modelu rhagfynegi risg. |
| | 4. Cydweithio â phartneriaid rhyngwladol ar astudiaethau dilysu<br>5. Ysgrifennu adroddiadau a phapurau a chyflwyno canlyniadau ymchwil i gyfoedion mewn cynadleddau a chydweithrediadau'r diwydiant<br>6. Cynnal dadansoddiadau data hynod gymhleth a strwythuredig, gan ymdrin yn briodol â chofnodion a allai fod yn rhai dyblyg, a data gwallus a diffygiol<br>7. Cynnal ymchwil a chyfrannu'n rhagweithiol at gynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, a chyflwyno canlyniadau<br>8. Bod yn hunangymhellol, cymhwyso a defnyddio ei fenter ei hun, â'r nod o ddod o hyd i ffyrdd addas o ymdrin â heriau<br>9. Bod yn greadigol i ddadansoddi a dehongli data ymchwil a llunio casgliadau ar sail y canlyniadau<br>10. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithwyr a phartneriaid eraill<br>11. Cyfrannu'n rhagweithiol at ddatblygu ceisiadau am gyllid allanol<br>12. Cadw'n gyfredol â'r datblygiadau yn y maes<br>13. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff perthynol eraill<br>14. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 15. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>16. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>17. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |

| | |
|---|---|
| | 18. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br><br>1. PhD mewn Ystadegau, Gwyddor Data, Epidemioleg, Seicoleg neu ddisgyblaeth gysylltiedig<br>2. Tystiolaeth o ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig ar gyfer cyfnodolion a adolygir<br>3. Tystiolaeth o'r capasiti i ddylunio ymchwil ac ysgrifennu ceisiadau am gyllid ymchwil allanol<br>4. Y gallu i ddangos ffocws a chyfeiriad annibynnol sylweddol mewn ymchwil<br>5. Tystiolaeth o arbenigedd mewn iaith raglennu megis SQL, R, Stata neu Python<br>6. Profiad o ddadansoddi setiau data gofal iechyd ar raddfa fawr<br>7. Tystiolaeth o ddylunio a chynnal dadansoddiadau cymhleth a dehongli'r canlyniadau<br>8. Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn ysgrifenedig<br>9. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br><br>10. Profiad ym maes ymchwil iechyd meddwl a gwybodeg iechyd<br>11. Profiad o ddadansoddi data gofal iechyd rheolaidd<br>12. Gwybodaeth am epidemioleg seiciatrig<br>13. Profiad o oruchwylio prosiectau myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig<br>14. Profiad o fodelu rhagfynegol a dulliau dysgu peirianyddol<br>15. Hanes o gyhoeddi mewn maes perthnasol |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Lefel 1 – 'ychydig' – ynganu geiriau Cymraeg Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion pob dydd syml iawn (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi.). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |